S4C

01.06.2017

Bethan Jenkins AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Bethan Jenkins

Diolch yn fawr eto am y cyfle i ddod i roi tystiolaeth i'ch pwyllgor am ddyfodol S4C. O ran y cwestiynau na chawsoch chi amser i'w gofyn yn ystod y sesiwn, rydym yn amlinellu'n hymatebion isod.

1. *A allwch chi nodi i ni sut y gallai gweledigaeth S4C ar gyfer y dyfodol ddatblygu amcanion polisi cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys nod Llywodraeth Cymru ar gyfer 1 filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? A allai Llywodraeth Cymru wneud mwy i gefnogi'r sianel yn hyn o beth?*

   Nid mewn gwagle diwylliannol y bydd siaradwyr newydd y Gymraeg yn cael eu creu. Mae diwylliant cyfoes, deniadol, aml-gyfryngol yn rhan o'r hinsawdd sy'n gallu creu'r awydd i ddysgu yn y lle cyntaf. Felly mae llwyddiant S4C fel darparwr cynnwys cyfryngol ar bob llwyfan, yn unol â'r weledigaeth yn "S4C: Gwthio'r Ffiniau", yn greiddiol i ffyniant y Gymraeg yn y dyfodol. Y gymwynas fwyaf y gall Llywodraeth Cymru ei gwneud yn hyn o beth yw cefnogi'r ymdrechion i adnewyddu cylch gorchwyl statudol S4C a sicrhau proses dryloyw i sicrhau arian digonol i gyflawni anghenion gwasanaeth o'r math.

   Mae defnydd o'r cyfryngau yn rhan allweddol o fywyd pob dydd pob carfan o gymdeithas. Mae sicrhau cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg ar y llwyfannau hyn yn hollbwysig ar gyfer datblygiad yr iaith. Mae hyn yn wir ar gyfer y rhai sy'n siarad yr iaith heddiw ac ar gyfer cyfoethogi'r diwylliant y mae dysgwyr, o bob oed, yn cael mynediad iddo wrth ddilyn eu taith i rugldder. Mae dymuniad S4C i fod yn flaenllaw yn y broses o greu, dosbarthu a marchnata cynnwys Cymraeg ar y llwyfannau digidol mwyaf poblogaidd yn arwydd clir o barodrwydd S4C i ddatblygu ei swyddogaeth i gyfarfod â gofynion siaradwyr Cymraeg yn ystod y degawdau sy'n dod.

   Un o amcanion craidd ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw ceisio sicrhau bod modd i'r cyhoedd gael mynediad i holl gyfoeth archif S4C. Fel adnodd i ddysgwyr, bydd hyn yn amhrisiadwy.

   Yn ogystal â hynny, mae yna weithgareddau amrywiol fydd yn cyfrannu at gyrraedd y nod, sydd yn hollol gyson ag amcanion a deisyfiadau S4C ei hun. Mwya'n y byd o siaradwyr sydd, a mwya'n y byd y maen' nhw'n ymwneud â'r cyfryngau Cymraeg, mwya' llwyddiannus fydd S4C fel corff cyfryngol.

   Dyma pam rydym eisoes wedi creu nifer sylweddol o bartneriaethau gyda chyrff eraill, nifer ohonynt yn gyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru, sydd â swyddogaeth benodol o gyfrannu at ffyniant yr iaith Gymraeg ac at gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith.

Mae'r partneriaethau hyn yn anelu at ddeilliannau penodol, defnyddiol, a phriodol i'r cyrff dan sylw, er enghraifft - cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn sicrhau fod cynnwys cyfredol S4C yn gallu cael ei ddefnyddio i greu deunydd addysg i'w ddefnyddio ar lefel cenedlaethol. O ganlyniad i hyn, mae gwers wedi ei chreu yn seiliedig ar drydedd gyfres Y Gwyll. Mae trafodaethau yn parhau rhwng yr adran gynnwys a'r ganolfan er mwyn sicrhau bod cynnig S4C i siaradwyr Cymraeg newydd yn berthnasol.

Y llynedd cydweithiodd S4C gyda'r Cyd Bwyllgor Addysg. Cytunwyd y byddai S4C yn caniatáu iddynt gynnwys pennod o Rownd a Rownd (Rondo) a Pobol Port Talbot (Telesgop) yn destunau gosod ar gyfer arholiadau TGAU a Lefel A ar gyfer pwnc Y Cyfryngau. Y llynedd hefyd, lansiwyd partneriaeth archif S4C gyda'r Coleg Cymraeg ac mae dros 300 o raglenni unigol ar gael i fyfyrwyr y Coleg hyd yma. O ran cyfleoedd i blant cynradd ddefnyddio'r iaith, ynghyd â'r Urdd, Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Llyfrau, mae S4C wedi bod yn bartner yng nghynllun Bardd Plant Cymru.

Wrth i gyrff eraill gynyddu eu hymdrechion i gyflawni amcanion y polisi "Miliwn o Siaradwyr", byddwn ninnau'n dyblu ein hymdrechion i adnabod cyfleoedd tebyg.

Er hyn, mae angen gofal gyda'r cysyniad y dylai S4C yn ffurfiol fod â chenhadaeth i hyrwyddo amcan penodol gan unrhyw lywodraeth. Mae annibyniaeth darlledwyr cyhoeddus oddi wrth ddylanwad gwleidyddol - pa mor glodwiw bynnag fo'r nod - yn egwyddor sylfaenol yn nhraddodiad darlledu cyhoeddus y Gorllewin, ac mae S4C yn falch o fod yn rhan o'r traddodiad hwn. Yn achos S4C, y cylch gorchwyl statudol a osodwyd yn fwyaf diweddar yn Neddf Cyfathrebiadau 2003, sy'n diffinio yr hyn y caiff S4C ei wneud gyda'r arian cyhoeddus y mae'n ei dderbyn, o bob ffynhonnell. Gobeithio bod y sylwadau uchod yn dangos, er hynny, i ba raddau y mae gweithgarwch S4C, o fewn cylch gorchwyl statudol adolygedig, yn allweddol i lwyddiant yr amcan o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

2. *Mae S4C wedi nodi bod ei gweithgarwch i hybu dysgu gydol oes wedi bod yn "dameidiog", ac yn y dyfodol y bydd yn "defnyddio dull mwy cyfannol a bwriadol". A allwch ymhelaethu ar ba newidiadau y bydd y dull newydd hwn yn ei olygu?*

   Ein bwriad yw bod yn fwy rhagweithiol yn ein cefnogaeth i'r system addysg trwy adnabod ymlaen llaw gyfleoedd i gomisiynu cynnwys sy'n adlewyrchu'r themâu sy'n cael eu nodi yn y cwricwlwm. Mae trafodaeth wedi'i chychwyn eisoes gyda swyddogion Adran Addysg Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o alinio ein huchelgais gyda datblygiad cwricwlwm newydd Cymru. Byddwn yn agored i'r math hwn o gydweithio ar gyfer cynnwys addysgiadol ar gyfer pob oedran neu lefel o brofiad. Rhoddir blaenoriaeth i gomisiynu cynnwys newydd sy'n adlewyrchu heriau bywyd cyfoes ac i sicrhau mynediad i gynnwys addysg o'n harchif. Yn ychwanegol, rydym am barhau i gyfrannu i ddatblygiad sgiliau yn y sector creadigol yng Nghymru.

3. *Dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wrth y Pwyllgor y gallai S4C "wneud mwy" i gefnogi datblygu sgiliau. A oes gennych unrhyw gynlluniau yn hyn o beth?*

   Yn y sesiwn dystiolaeth fe amlinellodd Ian Jones fod S4C ar hyn o bryd yn cydweithio gyda TAC i sefydlu cynllun a fydd yn darparu hyfforddiant i'r sector, gan fynd i'r afael â hyfforddiant angenrheidiol i weithwyr presennol ac adnabod sgiliau allweddol i'r dyfodol sydd angen eu cyflenwi i'r sector. Mae gan S4C hanes o gefnogi hyfforddiant yn y sector a gwnaeth S4C gyfraniad ariannol sylweddol i hyfforddiant yn y sector cynhyrchu pan oedd strwythurau ar gael i weinyddu hyn a denu ffynonellau arian ychwanegol. Derbyniodd bron i 1,000 o bobl hyfforddiant dan y cynllun Sgiliau i'r Economi Ddigidol a ariannwyd gan S4C, TAC, a'r ESF drwy Lywodraeth Cymru, a'r rhagolygon yw y bydd hyfforddiant y cynllun yn cyfrannu at ardrawiad economaidd o £9.3m erbyn 2020 [http://creativeskillset.org/cy/latest/news/3434_digital_skills_generate_more_than_9m_boost_for_welsh_economy].

Mae darpariaeth sgiliau ar gyfer darlledu yn dibynnu ar gydweithio effeithiol rhwng darlledwyr, cynhyrchwyr (a chyrff creadigol eraill) a'r llywodraeth a'i hasiantaethau, megis colegau a phrifysgolion. Yn y gorffennol mae cyrff megis Creative Skillset Cymru a Cyfle wedi sicrhau bod yna gydweithio pwrpasol yn digwydd rhwng y tair elfen o'r gadwyn. Er hynny, mae diflaniad y ddau gorff yn dangos pa mor anodd yw hi i gynnal strwythurau, ar lefel Cymru, sy'n ddigon cryf i ddod â'r elfennau oll ynghyd. Mae disgwyl i weithwyr y diwydiant heddiw fod yn fwy hyblyg ac aml-sgiliog na'u rhagflaenwyr. Ar yr un pryd mae angen sgiliau proffesiynol o'r lefel uchaf os yw cynnwys S4C i gystadlu yn effeithiol gyda chynnwys gorau'r byd.

Rydym yn edrych ymlaen at gydlynu ein hymdrechion gyda pholisïau'r Llywodraeth ar gyfer datblygu sgiliau pan fydd hyn yn briodol. Yn y cyfamser mae S4C yn y broses o greu trefniant newydd gyda TAC i ail-gychwyn buddsoddi mewn hyfforddiant sy'n bwrpasol ac sy'n ateb y gofynion hyfforddi hynny sy'n cael eu hadnabod gan y cynhyrchwyr. Pwysleisiwn fod adnabod y galw, a chyflenwi'n briodol ar gyfer y galw hynny, yn elfen allweddol o bwysig yn y broses o ddarparu hyfforddiant.

4. *A allwch roi rhagor o wybodaeth am sut y mae S4C yn sicrhau bod manteision economaidd ei gomisiynau yn cael eu lledaenu'n deg ar draws y sector?*

   Egwyddor sylfaenol S4C yw comisiynu'r syniadau gorau o ble bynnag y dônt o fewn y sector greadigol. Gofynion y gwasanaeth ei hun sy'n arwain y broses gomisiynu ac un o elfennau hanfodol y gwasanaeth hwn yw bod yr arlwy yn ei gyfanrwydd yn adlewyrchu bywyd Cymru yn ei holl amrywiaeth - yn ddaearyddol, yn ddiwylliannol, yn fywyd dinesig a bywyd gwledig, de, gogledd a chanolbarth. Mae hyn ynddo'i hun yn sicr wedi cyfrannu at y ffaith bod y sector cynhyrchu annibynnol yn cynnwys cwmnïau o bob rhan o Gymru.

   Rydym yn ymwybodol iawn o'r ffordd y mae clystyru yn gallu helpu'r diwydiannau creadigol i ymsefydlu mewn ardaloedd daearyddol penodol. Pan ddaw cyfleoedd felly, rydym yn awyddus i gyfrannu'n ymarferol at ymdrechion sy'n debygol o arwain at gryfhau effaith clystyru'r diwydiant mewn ardaloedd penodol, ond heb i hynny ddylanwadu ar y broses gomisiynu ei hun ac ar flaenoriaethau'r gwasanaeth.

   Mae'r penderfyniad diweddar i symud ein pencadlys i Gaerfyrddin, sy'n golygu y bydd S4C fel corff yn gweithredu ar draws tri safle – Caerdydd, Caernarfon a Chaerfyrddin, yn enghraifft arbennig o hyn. Roedd ystyriaethau economaidd yn rhan o'r penderfyniad hwn, ynghyd â buddiannau ieithyddol a diwylliannol.

5. *Pa drafodaethau y mae S4C wedi'u cael â Llywodraeth Cymru am ran y sianel yng nghorff Cymru Greadigol Llywodraeth Cymru?*

   Rydym yn ymwybodol o'r datblygiad yn sgil trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a'r agenda ehangach. Mae S4C yn amlwg yn gorff creadigol gweithredol pwysig yn y Gymru sydd ohoni. Byddai'n gwbl naturiol i ni ymateb yn gadarnhaol, mewn ysbryd o bartneriaeth, i'r hyn sydd gan Lywodraeth Cymru dan sylw wrth greu Cymru Greadigol. Edrychwn ymlaen at drafodaethau fydd yn help i adnabod y cyfleoedd ymarferol i gydweithio.

6. *A yw comisiynu ar gyfer byd digidol (fel yr awgrymodd TAC wrthym) yn gofyn am ailystyried materion hawliau?*
7. *Beth yw eich ymateb i awgrym Ron Jones o Tinopolis y dylai S4C gadw hawliau ar gyfer cynnwys iaith Gymraeg a gomisiynir ganddi ac yna roi'r cynnwys hwnnw ar gael i bawb?*

   Yn ddi-os, mae'r byd digidol yn codi cwestiynau newydd dyrys mewn perthynas â hawliau.

   Y man cychwyn yw'r ffaith mai prynu trwydded i ddarlledu am gyfnod o bum mlynedd y mae darlledwyr y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, oddi wrth gynhyrchwyr annibynnol, yn unol â Deddf Gyfathrebiadau 2003.

Ar lawer ystyr, mae'r cysyniad fod gwerth ariannol cynnwys yn gallu cael ei fesur yn nhermau nifer penodol o ddangosiadau o fewn cyfnod penodol yn hen ffasiwn.

Ar ben hynny hefyd, rhaid, fel y mae Ron Jones yn ei awgrymu, gadw'n glir yn y meddwl fod yna ddwy ystyriaeth allweddol yma sy'n rhaid eu bodloni:

a) Hawl cynhyrchwyr a chyfranwyr creadigol i dderbyn budd ariannol pan fydd eu gwaith yn cael ei ddefnyddio
b) Pwysigrwydd sicrhau fod cynnwys Cymraeg prin, sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus, yn cyrraedd cymaint o'r cyhoedd â phosibl, yn unol â'u patrymau gwylio a defnyddio

Mae'n naturiol y bydd S4C yn rhoi'r pwyslais ar sicrhau hawliau hyblyg fydd yn ein galluogi i wneud ein cynnwys ar gael ar draws yr holl lwyfannau traddodiadol a newydd, gyda'r pwyslais ar wneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â dymuniadau'r gynulleidfa, wrth i rain newid. Er enghraifft, dyw'r duedd bresennol tuag at *binge viewing* ddim yn ffitio o fewn model presennol y diwydiant o gael "ffenest" ar-lein cyfyngedig ar ôl pob darllediad. Mae S4C hefyd yn awyddus iawn i sicrhau bod gwylwyr o bob cwr o'r byd, sydd am wylio cynnwys Cymraeg, yn cael yr hawl i wneud hynny. Yn anffodus, nid ydym yn rhagweld bod modd i hynny gael ei ariannu trwy broses danysgrifio, felly'r unig ffordd o gyflawni'r amcan yw drwy negydu hawliau i wneud hynny, fel rydym yn ceisio'i wneud ar hyn o bryd, gyda sawl math o gynnyrch.

Rydym yn ymwybodol y bydd angen ymwneud yn y trafodaethau hyn gyda chwmnïau cynhyrchu, undebau sy'n cynrychioli talent megis actorion ac awduron, cymdeithasau sy'n trwyddedu cerddoriaeth a chyhoeddwyr cerddoriaeth, a hefyd Ofcom fel rheoleiddiwr a fydd yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Cod Ymarfer gyda'r sector gynhyrchu.

Ein safbwynt sylfaenol yw bod y gynulleidfa bellach wedi ei gwasgaru ar draws llwyfannau ac yn ddaearyddol, bod gwylio yn digwydd yn unol â phatrymau unigolion yn hytrach nag ar amserau o ddewis darlledwyr a bod angen cydnabod y realiti hwn os yw darlledu cyhoeddus mewn iaith leiafrifol, sydd wedi wynebu toriadau ariannol, i gyflawni ei amcanion yn effeithiol.

Lle mae gan gynnwys y potensial i werthu'n rhyngwladol (ee Y Gwyll/Hinterland), mae S4C wrth gwrs yn awyddus fod cwmnïau yn achub ar bob cyfle posibl i gyd-gynhyrchu, neu werthu ar y farchnad ryngwladol. Mae hyn yn rhan bwysig o'r broses o greu cwmnïau masnachol hyfyw, hir dymor, nad ydynt yn llwyr ddibynnol ar gyllido gan ddarlledwr cyhoeddus.

O bosib fod yna achosion ar hyn o bryd lle nad yw'r holl botensial masnachol yn cael ei wireddu, a hynny am resymau dilys. Mae hyn yn her y gallai S4C a'r sector gynhyrchu elwa o'u datrys. Er enghraifft, gallai fod yn fuddiol i S4C a'r cyd-gynhyrchwyr i ganfod strwythur newydd o archwilio potensial masnachol a marchnata cynnwys ar y cyd gan rannu'r risg a'r buddiannau ariannol sy'n deillio o hynny. Mi fyddai angen cefnogaeth Ofcom i newid ein Cod Ymarfer a'r fframwaith hawliau fyddai'n galluogi hyn i ddigwydd.

Yn hyn oll, yr elfen bwysig fydd cyd-drafod adeiladol rhwng yr holl bartïon, gan barchu deisyfiadau a phwrpasau'r gwahanol garfannau, cwmnïau a sefydliadau fel ei gilydd.

Mae hi'n werth cofio fod S4C a TAC yn 2003, wedi llwyddo i ddod i gytundeb, er gwaethaf gofynion y ddeddf newydd, i ganiatáu i gomisiynau gwreiddiol rhaglenni plant Cymraeg gan S4C fedru cael eu defnyddio'n ddigyfyngiad ar wasanaeth plant S4C. Roedd y cytundeb hwn yn allweddol i allu S4C i sefydlu gwasanaeth Cyw yn 2008. Efallai fod hyn yn arwydd o'r ewyllys da sy'n bodoli yn y sector greadigol tuag at anghenion y Gymraeg, ac yn addo'n dda ar gyfer trafodaethau'r dyfodol.

8. *Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi galw am i'r bartneriaeth rhwng S4C a'r BBC gael ei "diweddaru a'i hadnewyddu, er mwyn cefnogi a galluogi gwasanaethau S4C i dyfu ac arallgyfeirio mewn byd aml-lwyfan." Pa waith sy'n mynd rhagddo yn hyn o beth?*

Mae swyddogion S4C a'r BBC yn cwrdd yn rheolaidd i drafod y potensial ar gyfer cydweithio. Yr allbwn mwyaf llwyddiannus o'r bartneriaeth yma yw presenoldeb S4C ar y BBC iPlayer - sef yr unig sianel nad yw'n rhan o'r BBC i fod ar yr iPlayer. Mae hyn wedi rhoi llwyfan mawr ac eang newydd i gynnwys S4C. Roedd y posibilrwydd o werthu cynnwys S4C drwy safle BBC Store hefyd wedi'i drafod cyn i'r BBC benderfynu peidio â pharhau â'r fenter yn ddiweddar.

Mae'n cydweithio ar brosiect Y Gwyll/Hinterland yn enghraifft lwyddiannus iawn o gydweithio ar lefel gynhyrchu, ac mae prosiectau newydd eisoes ar y gweill, gan gynnwys rhai newydd ym maes drama. Rydym hefyd yn cydweithio gyda'r BBC i ddarlledu prif gystadleuaeth rygbi rhanbarthol, sef y Pro12. Mae gemau'n cael eu darlledu ar y BBC ac ar S4C a'r hawl i ddarlledu'r gêm derfynol yn cael ei rannu am yn ail flwyddyn.

Ar lefel gorfforaethol, rydym yn trafod rhannu adnoddau darlledu gyda'r BBC yn eu hadeilad newydd yn y Sgwâr Canolog, gyda'r bwriad o alluogi'r ddau ddarlledwr i gyflawni arbedion.

Yn sicr mae gennym ddiwylliant sefydliadol o barodrwydd i gydweithio ac i chwilio am gyfleoedd a fydd o fudd i'r gwasanaeth unigryw Cymraeg rydym yn ei gynnig.

Ar lefel gyllidol, mae trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gytuno ar olynydd i'n Cytundeb Gweithredu gwreiddiol oedd wedi'i arwyddo gan Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC. Mae'r pwyslais yn ôl ein trafodaethau ar sicrhau atebolrwydd priodol ar gyfer cyllid ffi'r drwydded. Credwn fod yr egwyddorion sylfaenol rydym yn anelu at eu hymgorffori yn y cytundeb newydd wedi cael ei hamlinellu ein sesiwn dystiolaeth.

9. *Galwodd y Gweinidog hefyd am i S4C "gryfhau'r cysylltiadau presennol gyda sefydliadau fel Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a phartneriaid eraill". Pa gynlluniau sydd gan y sianel yn hyn o beth? Sut y gallai Llywodraeth Cymru helpu gyda hyn?*

   Ers 2012 mae sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau Cymreig eraill wedi bod yn nôd strategol benodol i S4C. Mae wedi arwain at drafodaethau creadigol ar brosiectau penodol (gweler uchod) mewn meysydd strategol ac ym maes cynnwys.

   Mae memorandwm dealltwriaeth yn bodoli rhwng S4C a nifer o sefydliadau eraill gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, BAFTA Cymru a Chanolfan y Mileniwm. Mae cysylltiadau llai strwythuredig yn bodoli gydag ystod eang o sefydliadau gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru, Mudiad Ysgolion Meithrin, Yr Urdd, Yr Eisteddfod Genedlaethol. Rydym eisoes yn cydweithio gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol ac yn cynnal trafodaethau gyda'r Amgueddfa Genedlaethol, Y Llyfrgell Genedlaethol a'r adrannau o fewn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag addysg a'r Gymraeg.

   Bwriadwn barhau â'r partneriaethau hyn.

   Gan Lywodraeth Cymru y mae'r swyddogaeth o gymryd gorolwg dros ffyniant y Gymraeg ymhob maes. Yn hynny o beth, mae ganddi swyddogaeth allweddol o adnabod cynnydd a chyfleoedd ar gyfer y Gymraeg, yn ogystal â bygythiadau, ble bynnag y maent yn bodoli ac o ddarparu gwybodaeth ac arweiniad a fydd ar gael yn gyffredinol yn y meysydd hyn. Yn hytrach na chyfyngu ei gorolwg i weithgarwch y cyrff y mae'n eu hariannu, credwn fod hyn yn un o egwyddorion sylfaenol yr amcan o weithredu mewn partneriaeth ac yn gwbl gyson â diddordeb Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol mewn pwnc fel darlledu, sydd mor allweddol yn y maes hwn, er nad yw'n bwnc sydd wedi'i ddatganoli.

10. *Mae'r Gweinidog wedi galw am i S4C "sicrhau ei bod yn comisiynu mwy o raglenni yn seiliedig ar eiddo deallusol o Gymru ac am Gymru a'i bod yn datblygu arlwy aml-lwyfan sy'n canolbwyntio ar yr eiddo deallusol hwnnw mewn partneriaeth ag eraill". Pa gynlluniau sydd gan yr orsaf i wneud hyn? Pa gymorth y byddai ei angen arni gan randdeiliaid eraill i gyflawni hyn?*

Mae mwyafrif helaeth comisiynu S4C yn seiliedig ar eiddo deallusol o Gymru ac am Gymru. Mae cyfresi fel Y Gwyll/Hinterland yn un o'r enghreifftiau prin o gynnwys cwbl Gymreig yn cyrraedd sgriniau teledu mewn gwledydd eraill yn llwyddiannus. Rydym yn awyddus iawn i adeiladu ar lwyddiant cyfresi o'r math ac rydym yn ymwybodol iawn o werth diwylliannol ac economaidd y sylw rhyngwladol a gaiff rhaglenni o'r math ar gyfer y diwydiant, yr ardaloedd lle mae'r rhaglenni'n cael eu saethu, a'r canfyddiad cyffredinol o Gymru.

Byddwn yn parhau i gydweithio â chwmnïau a sefydliadau i chwilio am gyfleoedd i fuddsoddi'n ariannol a chynnig arbenigedd gwerthfawr. Rydym eisoes wedi sefydlu partneriaeth arloesol gyda Sony er mwyn datblygu fformatau allai gael eu dosbarthu'n rhyngwladol ac mae nifer o'r comisiynau sydd wedi deillio o'r cynllun yma wedi ymddangos ar S4C eisoes.

Mae datblygu fformatau yn cyflawni sawl peth – maent yn creu conglfeini newydd i amserlenni S4C ac yn cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer allforio. Rydym eisoes wedi datgan ein bwriad i gynnwys mwy o fformatau ffeithiol yn yr amserlen.

O ran datblygu, creu a lledaenu cynnyrch sy'n seiliedig ar eiddo deallusol o Gymru, credwn mai S4C yw'r darlledwr sydd wedi gwneud y cyfraniad mwyaf dros y blynyddoedd. Mae'n amcan sy'n greiddiol i'n bodolaeth a bydd yn parhau wrth galon ein gwaith am flynyddoedd i ddod.

Gobeithiwn fod y wybodaeth ychwanegol yma yn ddefnyddiol, gyda diolch eto am eich sylw ac am sylw'r Pwyllgor.

Yn gywir

**Huw Jones**
Cadeirydd Awdurdod S4C

**Ian Jones**
Prif Weithredwr S4C